gorolwg

Mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Peirianneg Adeiladu (ECITB) yn ymroi i sicrhau fod digon o bobl gymwys, wedi eu hyfforddi'n dda, yn dod i mewn i'r sector peirianneg adeiladu hollbwysig, ac yn aros o fewn y sector, er mwyn iddo barhau i fod yn gystadleuol.

Nid yw natur gylchol y diwydiant, gyda llawer o waith yn digwydd fesul project, yn darparu sail gadarn i'r holl gwmnïau sy'n gweithredu yn y maes barhau i fuddsoddi'n helaeth yn yr holl bobl sy'n gweithio mewn peirianneg adeiladu.

Dyma sydd wedi esgor ar brif gyfrifoldeb ECITB, sef cefnogi a hwyluso'r lefel uchel o hyfforddiant sydd ei angen ar y diwydiant. Rydym yn gallu gwneud hynny oherwydd ein pwerau statudol i godi treth hyfforddi. Mae'r arian a godir yn galluogi'r ECITB i ddarparu cefnogaeth helaeth ar gyfer datblygu pobl.

Bwriedir i'r Cynllun hwn fod yn sail ar gyfer llunio strategaeth dymor-hwy a chreu ac ysgogi cyfleoedd gweithredu ar gyfer y diwydiant, asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r sector addysg a hyfforddiant.

Mae'n crynhoi gofynion a buddiannau'r sector o ran addysg, hyfforddi, sgiliau a chymwysterau, gan gyfeirio at lefelau sgiliau presennol, y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant gyfredol, a ffactorau sy'n ysgogi hyfforddiant, fel amodau masnach, newid technolegol ac arferion gwaith newydd.

cynnwys

Datganiad gan y PSG

Crynodeb gwaith

5 Y diwydiant yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
5 PA yn symud o'r gorffennol i'r presennol ac yn edrych tua'r dyfodol
6 Lleoliad y Gweithlu
9 Cynhyrchedd a Chystadleugarwch
10 Barn Budd-ddeiliaid

15 Proffiliau'r diwydiant
15 Proffil rhanbarthol: Prydain
18 Proffil rhanbarthol: Yr Alban
20 Proffil rhanbarthol: Cymru
22 Proffil rhanbarthol: Gogledd Orllewin Lloegr
24 Proffil rhanbarthol: Gogledd Ddwyrain Lloegr/Swydd Efrog a Humberside
26 Proffil rhanbarthol: Gorllewin Canolbarth/De-orllewin Lloegr
28 Proffil rhanbarthol: Dwyrain Canolbarth/Dwyrain Lloegr
29 Proffil rhanbarthol: Llundain/De-ddwyrain Lloegr

32 Crynodeb rhanbarthol a mentrau newydd yr ECITB
32 Mentrau allweddol
35 Crynodeb

36 Datblygu'r Gweithlu
36 Blaenoriaethau Gweithredu
37 Targedau Datganiad a Chanlyniadau

ecITB logo
BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT
PEIRIANNEG ADEILADU

Datganiad

Gwnaed adolygiad mawr o strategaeth sgiliau'r diwydiant peirianneg adeiladu yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae sylwebyddion a dylanwadau ledled y sector wedi bod yn dadansoddi nodau ac amcanion ECITB, gan herio'r sail resymegol ac, yn bwysicaf oll, canolbwyntio ar faterion strategol i sicrhau fod y diwydiant yn ei grynswth yn parhau i fod yn gystadleuol, yn enwedig o safbwynt cleient-fuddsoddwyr, contractwyr peirianneg adeiladu a'r holl bobl a gyflogir ganddynt.

Y gofyniad allweddol a nodir yw mwy o ymdrech gyda phartneriaid rhanbarthol a budd-ddeiliaid i gynyddu buddsoddi mewn sgiliau o 50% o leiaf. Mae'r adroddiad yn sail ardderchog ar gyfer deall pwysigrwydd y diwydiant peirianneg adeiladu, ac fe'i hargymhellaf i bawb sy'n ymwneud â gwella lefelau sgiliau a pherfformiad cystadleuol.

Bu'r diwydiant dan bwysau yn y blynyddoedd diwethaf, ac roedd 2002 yn neilltuol o anodd. Mae trwch y gwaith yn dal i fod yn waith atgyweirio a chynnal a chadw graddfa-gymedrol neu fach yn y DU, gyda'r rhan fwyaf o brojectau mawr mewn gwledydd tramor. Fodd bynnag, mae cyflogwyr yn cytuno fod angen denu mwy o bobl o hyd a'u hyfforddi i'r safonau caeth sy'n angenrheidiol ar gyfer diwydiant â lefel uchel o sgiliau fel hwn.

Adnewyddu'r sail sgiliau crefft yn gyflymach yw prif bwyslais strategaeth yr ECITB, a chynigir mwy o brentisiaethau. Bu cyfanswm o 266 o brentisiaid blwyddyn-gyntaf wrthi'n hyfforddi yn 2002, diolch i fuddsoddiad uwch chefnogaeth y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Dyma'r nifer fwyaf a recriwtiwyd gan yr ECITB erioed.

Mae'n bwysig deall cyd-destun swyddogaeth ECITB hefyd yn nhirwedd gyfnewidiol polisi'r llywodraeth mewn addysg a hyfforddi. Rydym yn newid i fod yn sefydliad sy'n cael ei arwain yn fwy gan alw, a thrwy ymrwymiad ein partneriaid a'n budd-ddeiliaid, sicrheir fod y datblygiad ledled y gweithlu yn dal i fod o'r safon uchel, gyson arferol.

Crynodeb

Mae'r diwydiant peirianneg adeiladu yn gryn ddylanwad ar economi'r DU, gan gyfrannu tua 1.5% o GMC yn uniongyrchol. Mae pwysigrwydd y diwydiant yn fwy na'r cyfraniad uniongyrchol at GMC, gan fod peirianneg adeiladu yn sail i allu'r DU i gynhyrchu nwyddau hanfodol fel olew, nwy, cemegion a chynhyrchu pŵer.

Cyflogir rhyw 50,000 yn y diwydiant mewn gwaith ar safle ac oddi ar safle (dylunio a phwrcasu). Mae'r math o waith a wneir ar safle wedi newid yn y degawd diwethaf, gyda llai o brojectau adeiladu newydd. Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yw gwaith pennaf y sector erbyn hyn.

Rhaid i ddatblygiad y gweithlu ymateb i'r prinder a'r bylchau mewn sgiliau yn y diwydiant. Bydd mwy o hyfforddiant drwy raglenni hyfforddi'r ECITB fel NASEC a NSDS yn cynyddu maint y gronfa o weithwyr medrus. Mae'r ECITB wedi gosod targedau er mwyn cynyddu'r nifer sy'n dilyn y cyrsiau hyn.

Mae amrywiaeth y diwydiant peirianneg adeiladu wedi arwain at fwy o alw am hyfforddiant penodol i'r rhanbarth neu'r sector. Mae'r ECITB wrthi'n ymateb i ofynion ei gwsmeriaid, gan sefydlu timau rhanbarthol er mwyn datblygu gweithluoedd lleol. Bydd yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth sy'n ymateb yn fwyfwy penodol i'r cwsmer unigol.

Mae dadansoddiad rhanbarthol y ddogfen hon y rhoi'r wybodaeth sydd ar gael am beirianneg adeiladu ac yn ymdrin ymhellach â'r problemau ynglŷn â datblygu'r gweithlu mewn ymgais i fynd i'r afael â'r rhain o fewn y diwydiant.

Yn sail i'r adran hon, gwnaeth ECITB arolwg o'r holl gwmnïau ar ei gofrestr, gan dderbyn ymateb gan 60% ohonynt, sef cyflogwyr mwy nag 80% o'r gweithlu yn y diwydiant. Rhoddodd yr ymchwil hon olwg fwy cynhwysfawr i ni ar broblemau pob cwmni a gyfranogodd.

Dangosodd yr ymchwil fod pryder eang ynglŷn â phrinderau a bylchau mewn sgiliau, yn enwedig prinder crefftweithwyr/wragedd medrus. Y farn gyffredinol, yn enwedig yn y rhanbarthau hynny lle mae llawer o waith, oedd bod angen cyfranogaeth pawb i fynd i'r afael â'r prinderau hyn. Roedd sylwadau fel 'cael y llywodraeth i chwarae rhan', 'cynyddu cefnogaeth ariannol' a 'rhoi mwy o amlygrwydd i'r diwydiant peirianneg adeiladu' yn gyffredin, a dengys hyn bwysigrwydd cynyddu cyfranogaeth o bob rhan o'r sector.

Mae hyrwyddo'r diwydiant peirianneg adeiladu yn flaenoriaeth weithredu bwysig. Rhaid i'r diwydiant gystadlu â diwydiannau eraill i ddenu crefftweithwyr a graddedigion i mewn i'r diwydiant hwn yn hytrach na'i gystadleuwyr. Mae'n bwysig hyrwyddo'r ECITB hefyd o ran arddangos arfer gorau mewn datblygu cynnyrch a gweithredu.

Crynodeb gwaith

Gellir dosbarthu'r blaenoriaethau gweithredu ar gyfer datblygu'r gweithlu yn y dyfodol o dan bedwar prif ben:

Darparu Tystiolaeth o Gymhwysedd Unigolion ar gyfer Cyflogwyr

- Gwerthu'r cysyniad i gyflogwyr
- Darparu hyfforddiant NASEC sy'n bodloni gofynion cymhwysedd
- Datblygu safonau a chynnyrch cysylltiedig
- Darparu deunyddiau marchnata a chyfathrebu

Ymdrin â Gofynion Cyfnewidiol Cwsmeriaid

- Sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i rheoli'n effeithiol i ateb y gofynion a nodwyd
- Nodi newidiadau sydd eu hangen ar sail y rhaglen NASEC
- Darparu gwasanaeth i ateb gofynion y diwydiant
- Dadansoddi gwybodaeth er mwyn dargnfod sut mae gofynion cwsmeriaid yn newid
- Dangos ein parodrwydd i ymateb i ofynion cyfnewidiol
- Sicrhau cyllid i gefnogi datblygiadau newydd

Ymdrin â Phrinderau a Bylchau mewn Sgiliau o fewn y Diwydiant

- Deall beth sy'n ysgogi cwsmeriaid a'u cefnogi mewn datblygu sgiliau
- Gwella ansawdd a chynyddu nifer y bobl a hyfforddir (NASEC ac NSDS)
- Mesur a dilysu cymhwysedd
- Awgrymu a datblygu cynnyrch a gwasanaethau fel y bo'n briodol
- Darparu deunyddiau cyrsiau a hyrwyddo

Hyrwyddo Peirianneg Adeiladu a'r ECITB

- Sefydlu dulliau cynhwysfawr ac effeithiol o gysylltu'n bersonol â chwsmeriaid
- Sicrhau fod cynlluniau hyfforddi NASEC ac NSDS yn cael eu cydnabod a'u derbyn fel cyrsiau sy'n cynnig hyfforddiant sgiliau o'r ansawdd uchaf
- Hyrwyddo gweithgareddau a gwasanaethau Corff Dyfarnu'r ECITB
- Cynnig arfer gorau o ran datblygu a rhedeg cyrsiau ac ati
- Cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer creu partneriaethau a sicrhau cyllid i gefnogi'r diwydiant mewn ymateb i alw
- Sicrhau cefnogaeth ac ymrwymiad budd-ddeiliaid i'r cynlluniau gweithredu

y diwydiant

PA yn symud o'r gorffennol i'r presennol ac yn edrych tua'r dyfodol

Mae diwydiant peirianneg adeiladu'r DU yn dylunio, adeiladu a chynnal a chadw gweithfeydd prosesu ar gyfer cleient-berchenogion yn y diwydiannau olew a nwy (ar dir ac ar fôr), dŵr, amgylcheddol, dur, metelau, sment, gwydr, papur, bragu a distyllu, bwyd, cynhyrchu ynni, ailbrosesu gwastraff niwclear, cynhyrchu fferyllol, petrogemegol a chemegol.

Mae'r diwydiant wedi bod o bwys mawr yn y DU erioed, yn gyfrifol am adeiladu llawer o'r isadeiledd sy'n caniatáu cynhyrchu llawer o nwyddau. Mae'n bwysig oherwydd ei bod yn sail i rai o brif elfennau economi'r DU, yn cynnwys cynhyrchu a phuro olew a nwy, gweithgynhyrchu cemegol a chynhyrchu pŵer ar gyfer y DU.

Tyfodd y diwydiant peirianneg adeiladu yn aruthrol yn y DU wedi'r Ail Ryfel Byd gyda'r cynnydd anferth yn yr angen am adeiladu gorsafoedd pŵer a gweithfeydd prosesu. Daeth y gweithlu o ddiwydiannau eraill fel adeiladu llongau a'r diwydiannau cynhyrchu trwm. Roedd y nifer fawr o brojectau cyfalaf yn gofyn am weithlu mawr a hyblyg a allai symud o safle i safle. Darniwyd y diwydiant wrth i ddiffyg arweinyddiaeth a hyfforddiant oruchwyliol achosi cysylltiadau diwydiannol gwael yn y 1960au a'r 1970au, ond tyfodd o nerth i nerth drwy gydol yr 80au a'r 90au.

Heddiw, diwydiant peirienneg adeiladu'r DU yw'r mwyaf yn Ewrop, yn ail yn unig i'r Unol Daleithau yn fyd-eang. Mae'r diwydiant yn uniongyrchol gyfrifol am ryw 1.5% o GMC ac mae wedi cyflogi rhwng 40,000 a 60,000 o bobl yn gyson yn y deng mlynedd diwethaf. Yn 2002, roedd y cyfanswm a gyflogwyd yn 50,000 ar gyfartaledd.

Lleoliad y Gweithlu

Mae clystyrau o gwmniau peirianneg adeiladu yn Llundain, De-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr a'r Alban. Mae Gogledd-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog a Humberside yn cyfrannu tua chwarter y gweithlu, a'r Alban yw'r rhanbarth nesaf o ran maint, yn cyflogi pumed ran o weithwyr y diwydiant.

Mae'r cynllun gweithlu yn edrych ar ranbarthau unigol er mwyn darparu gwybodaeth benodol ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Mae Ffigurau 1 a 2 isod yn dangos y clystyrau o swyddfeydd peirianneg adeiladu ym Mhrydain a'r gyflogaeth ar safloedd fesul rhanbarth.



Ffigur 1 **Cyflogaeth ar-safle fesul rhanbarth**

Ffigur 2. **Map yn dangos contractwyr peirianneg adeiladu yn y DU**

Mae'r math o waith a wneir yn y diwydiant wedi newid, o brojectau cyfalaf newydd i fwy o waith atgyweirio a chynnal a chadw. Ddeng mlynedd yn ôl, roedd rhyw dri-chwarter y gwaith peirianneg adeiladu yn adeiladu newydd neu brojectau cyfalaf. Heddiw, dim ond tua chwarter y gwaith sy'n waith adeiladu newydd gyda'r gweddill yn brojectau atgyweirio a chynnal a chadw.

Bu cynnydd mewn gwaith dadgomisiynu (dymchwel) ac mae'r duedd hon yn parhau. Mae gan Brydain 14 gorsaf ynni niwclear y bydd yn rhaid eu dadgomisiynu yn y 30 mlynedd nesaf.

Rhagwelir y bydd meysydd olew'r Môr y Gogledd yn parhau i ffynnu am ryw 40 mlynedd arall. Yn ôl adroddiad a gyhoeddodd UKOOA, mae 32 biliwn casgen arall o olew a nwy i ddod o Fôr y Gogledd.

Fodd bynnag, mae codi'r olew a'r nwy yn mynd yn broses fwy anodd ac mae angen technegau gwaith newydd.

Mae ffactorau gwleidyddol yn effeithio ar natur y gwaith a wneir yn y diwydiant peirianneg adeiladu hefyd. Mae'r llywodraeth wedi gosod targedau ar gyfer cynyddu ffynonellau ynni adnewyddadwy fel bod llai o garbon yn cael ei ollwng i'r awyr. Gallwn ddigwyl gweld cynnydd yn nifer y ffermydd gwynt a ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill.

Newidiadau yng ngwaith y DPA

Adeiladu newydd
Dymchwel
Atgyweirio/CaCh

Cynhyrchedd a Chystadleugarwch

Mae cynhyrchedd y DU yn destun pryder unwaith eto mewn perthynas â'n gallu i gystadlu yn y dyfodol. Tanlinellodd y Canghellor Brown y pwynt yn araith y gyllideb ac yn ddiweddarach, roedd yn destun adroddiad a gomisiynwyd gan y DTI, gan yr Athro Michel Porter o Brifysgol Harvard. Er mai ynglŷn â'r diwydiannau gweithgynhyrchu mae'r pryder pennaf, cyfeiriodd y ddau yn benodol at adeiladu. Ar yr un pryd, mae pryderon o fewn y diwydiant fod cynhyrchedd yn gostwng. Gellir priodoli hyn i raddau i recriwtio annigonol a ddiffyg datblygu sgiliau.

Ar lawer agwedd, mae'n haws deall pam mae cynhyrchedd yn is nag y dylai fod ar brojectau adeiladu, yn wyneb eu cymhlethdod a'u natur unigryw. Am yr un rhesymau mae achosion penodol cynhyrchedd isel yn anodd eu canfod. Byddwn yn dychwelyd at fater cynhyrchedd yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Barn budd-ddeiliaid

DTI

Amcan glir yr Adran Fasnach a Diwydiant (DTI) yw cynhyrchu cyfoeth ar gyfer pawb yn y DU drwy helpu pobl a busnesau i fod yn fwy llwyddiannus.

Mae'r Adran yn canolbwyntio ar feithrin menter, sicrhau fod rheolwyr a gweithwyr yn dysgu sgiliau newydd, a sicrhau budsoddi hanfodol. Mae'r corff hefyd yn darparu'r fframwaith i sicrhau fod defnyddwyr a gweithwyr yn cael triniaeth deg.

Mae gan y DTI Grŵp Ynni sy'n cynnwys sawl sector sy'n dod o fewn cwmpas peirianneg adeiladu, fel Ynni Niwclear, Olew a Nwy, Glo a Nwy a Thrydan.

Ffocws ac amcanion y grŵp mewn perthynas â'r sector peirianneg adeiladu yw gweithio gydag eraill i sicrhau marchnadoedd ynni cystadleuol tra'n creu cyflenwadau ynni diogel, sicr a chynaliadwy. Ei swyddogaeth yw llunio fframwaith teg ac effeithiol y gall cystadlu ffynnu o'i fewn er budd y diwydiant a'i gyflenwyr.

DfES

Sefydlwyd yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) gyda'r diben o greu cyfle, rhyddhau potensial a sicrhau rhagoriaeth ar gyfer pawb.

Swyddogaeth yr Is-adran Sgiliau Cyflogaeth, mewn perthynas â'r diwydiant peirianneg adeiladu, yw rheoli perthynas yr Adran gyda'r ECITB. Fel Corff Cyhoeddus An-Adrannol, mae'r ECITB yn atebol i'r Senedd a'r diwydiant am y ffordd y mae'n cyflawni eu swyddogaethau sef, yn bennaf, sicrhau fod gan y diwydiant gyflenwad digonol o weithwyr â'r hyfforddiant priodol, i ateb ei ofynion sgiliau cyfredol ac yn y dyfodol.

Mae'r DfES yn disgwyl i fwrdd yr ECITB nodi'r sgiliau y bydd eu hangen ar gyflogwyr er mwyn sicrhau llwyddiant busnes o'r radd flaenaf a llunio strategaeth a fydd yn dileu'r bylchau a'r prinderau sgiliau ac ehangu'r sail sgiliau sydd ar gael yn y diwydiant. Byddant hefyd yn sicrhau cyfranogaeth weithredol cyflogwyr a phartneriaid eraill i weithredu strategaeth a fydd yn sicrhau fod y cyflenwad sgiliau yn ateb y galw am sgiliau.

ECIA

Cymdeithas y Diwydiant Peirianneg Adeiladu (ECIA) yw prif gymdeithas fasnach a chyflogwyr diwydiant peirianneg adeiladu'r DU.

Mae'r ECIA yn llefaru ar ran ei 300 o aelodau er mwyn cynrychioli eu buddiannau ym mhob mater sy'n effeithio ar eu diwydiant. Cefnogir y gymdeithas gan yr ECITB ac mae'n gweithio gyda thri undeb llafur (Amicus, GMB a TGWU); mae'n gweithredu'r Cytundeb Cenedlaethol ar gyfer y Diwydiant Peirianneg Adeiladu (NAECI) drwy gyd-gyngor cenedlaethol y diwydiant.

Adolygodd yr ECIA y cytundeb NAECI yn ddiweddar er lles budd-ddeiliaid. Gobeithir y bydd y cytundeb newydd yn rhoi mwy o gyfle i weithio hyblyg, ymbweru rheolwyr a gweithwyr lleol, sefydlu rhaglen gymhwysedd ar gyfer yr holl ddiwydiant, a diwygio strwythurau cyflogau.

OCA

Cymdeithas y Contractwyr Arforol (OCA) yw prif gorff cynrychioladol diwydiant contractio a chyflenwi olew a nwy y DU.

Mae'r sefydliad yn llefaru ar ran y 51 cwmni sy'n aelodau, Mae'r rhain yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau peirianneg adeiladu, ac yn cyflogi rhyw 18,000 o bobl, gyda throsiant o fwy na £2 biliwn.

Y materion allweddol i'r OCA fydd gwella safonau diogelwch, ymdrin â phrinder sgiliau a hyfforddiant yn y diwydiant, asesu effaith newid technolegol, a chyfathrebu da gyda'r diwydiant.

Mae'r OCA'n cydnabod y posibilrwydd o brinder sgiliau technegwyr ymhlith ei aelodau, a chwaraeodd ran bwysig yn y cydweithrediad a fu rhwng Cymdeithas Gweithredwyr Arforol y DU (UKOOA) a'r ECITB. Sicrhaodd cyllid ychwanegol gan UKOOA fwy o brentisiaethau technegwyr yn ystod y tair blynedd nesaf.

BCECA

Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Gemegol Prydain (BCECA) yw'r gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli prif gwmnïau'r DU ym maes darparu gwasanaethau peirianneg, pwrcasu, adeiladu a rheolaeth project i'r diwydiannau prosesu.

Amcanion BCECA yw gwella dealltwriaeth y cyhoedd o weithgareddau ei haelodau, bod yn ganolbwynt i gynrychioli buddiannau aelodau gyda chleientiaid, llywodraeth y DU, yr Undeb Ewropeaidd a sefydliadau rhyngwladol, a chyrff eraill. Bydd y gymdeithas yn annog gweithwyr newydd i ymuno â'r diwydiant hefyd.

UKOOA

Cymdeithas Gweithredwyr Arforol y DU (UKOOA) yw sefydliad cynrychioladol diwydiant olew a nwy arforol y DU. Mae ei haelodau'n gwmnïau a drwyddedwyd gan lywodraeth y DU i chwilio am olew a nwy yn nyfroedd y DU, a'u cynhyrchu.

Swyddogaeth y Gymdeithas yw cynnig arweinyddiaeth er mwyn cynnal datblygiad diwydiant olew a nwy arforol blaengar, proffidiol, ffyniannus a chyfrifol, gwella'r enw sydd ganddo, a datblygu cysylltiadau gyda'r llywodraeth, y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill.

Amcanion UKOOA yw cefnogi diogelwch, gwella perfformiad amgylcheddol, cynghori ar faterion gweithredol neu dechnegol, cynnal amodau gwaith da, a chyfathrebu gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

Mae UKOOA wedi buddsodi gyda'r ECITB yng Nghynllun Hyfforddi Technegwyr 'Upstream' y Diwydiant Olew a Nwy . Y bwriad yw hyfforddi mwy na 500 o dechnegwyr yn y pum mlynedd nesaf i weithio ar lwyfannau arforol a glanfeydd ardirol ledled Ynysoedd Prydain.

NJC

Mae Cyd-gyngor Cenedlaethol y Diwydiant Peirianneg Adeiladu (NJC), sy'n cynrychioli cyflogwyr ac undebau llafur o dan secretariat annibynnol, yn gweinyddu cytundeb llafur sengl y diwydiant ar gyfer gweithwyr a delir fesul yr awr, a bydd yn cyd-drefnu projectau y mae nifer o gontractwyr yn gweithio arnynt.

Mae'r NJC wedi llwyddo i resymegoli'r strwythur cyflogau a sicrhau datrys cwynion ac anghydfod yn ddiymdroi. Mae gwell cysylltiadau diwydiannol wedi cynyddu gallu cwmnïau i gynllunio projectau mawr gan fod yn sicr o'r gost, ac o'r ffaith y cedwir at yr amserlen.

Cwmnïau Cleient

Bydd cleientiaid yn cyflogi contractwyr i wneud y gwaith peirianneg adeiladu. Gall barn y cleient fod yn wahanol i eiddo'r cwmni contractio.

Ym marn cleientiaid, cymhwysedd, cynhyrchedd, hyfforddi oedolion, a gweithlu sy'n heneiddio yw'r problemau allweddol y dylai datblygu sgiliau eu datrys. Maent yn pryderu y bydd prinderau a bylchau mewn sgiliau yn effeithio ar eu gallu i gystadlu'n fyd-eang.

Er mwyn gallu cystadlu yn y farchnad fyd-eang, mae cleientiaid yn gweld perfformiad cynhyrchiol fel ffactor allweddol. Mewn marchnad fyd-eang fwyfwy cystadleuol, mae'r cleientiaid yn chwilio beunydd am ffyrdd o wella perfformiad cynhyrchiol, gyda chymorth pob parti.

Cwmnïau Contractwyr

Mae'r cwmnïau neu sefydliadau contractwyr yn y sector yn defnyddio gwybodaeth arbenigol mewn peirianneg a thechnoleg i ddylunio ffatri neu gyfleuster, rheoli'r project, pwrcasu'r offer, rheoli'r gwaith adeiladu ac, yn aml, comisiynu'r ffatri a'i rhoi ar waith. Mae disgwyl cynyddol i gontractwyr barhau i gyfranogi yn y gwaith o redeg a chynnal a chadw ffatrïoedd a ddyluniwyd ac a beirianwyd ganddynt, fel y nodwyd yn 'Y Diwydiant yn y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol'.

Mae'r amrywiaeth o gwmnïau yn y sector yn cynnwys contractwyr bach, arbenigol a rhai o gontractwyr rheolaeth mwyaf y DU, sydd oll yn gyd-gyfnewidiol ac yn atebol i'r cleient.

Gellir dosbarthu'r cwmnïau neu sefydliadau sy'n gweithio yn y diwydiant peirianneg adeiladu, ac sydd ar gofrestr yr ECITB, mewn pedwar prif grŵp, fesul maint.

Dim ond 28 sefydliad yn y sector sy'n fawr iawn, gyda mwy na 500 o weithwyr. Mae gan 24 cwmni rhwng 251 a 499 o weithwyr. Mae gan 109 rhwng 51 a 250 o weithwyr, ac mae gan 268 lai na 50. Gellid diffinio rhyw 88% ohonynt fel MBCau.

Barn budd-ddeiliaid

Amcangyfrif o'r nifer o weithwyr, fesul maint y cwmni



Cadwyn gyflenwi'r diwydiant

Llywodraeth yr Alban

Sefydlwyd Llywodraeth yr Alban yn sgîl creu Senedd yr Alban. Ei nod yw gweithio gyda Gweinidogion yr Alban i wella lles yr Alban a'i phobl.

Bydd yn ceisio gweithio gyda sefydliadau eraill a dysgu ganddynt er mwyn hyrwyddo buddiannau'r Alban. Mae gan Lywodraeth yr Alban nifer o adrannau, yn cynnwys materion corfforaethol, addysg a menter a dysgu gydol oes. Mae'n rheoli cyllideb flynyddol o fwy nag £20 biliwn.

Mae adran Menter a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth yr Alban yn gweithio i wella sgiliau yn yr Alban. Mae'r ECITB yn gweithio gyda Careers Scotland sy'n darparu cyngor cynhwysfawr ar gyfer pawb, ni waeth beth fo'u hoedran, ar gyfleoedd dysgu gydol oes yn yr Alban.

Scottish Enterprise

Scottish Enterprise, a gyllidir gan Lywodraeth yr Alban, yw prif asiantaeth ddatblygu economaidd yr Alban,.

Gwaith yr asiantaeth yw helpu pobl a busnesau'r Alban i lwyddo. Wrth wneud hynny, eu nod yw adeiladu economi o safon fyd-gydnabyddedig. Mae Scottish Enterprise yn gweithio gyda phrifysgolion, colegau, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i gefnogi a datblygu busnesau.

Mae'r diwydiant olew a nwy yn sector allweddol i'r asianateth, oherwydd ei bwysigrwydd yn yr Alban. Amcangyfrifir fod mwy na 100,000 o swyddi yn yr Alban yn dibynnu ar y diwydiant olew a nwy, gyda mwy na 2000 o gwmnïau'n rhan ohono.

Mae gan Scottish Enterprise wybodaeth arbenigol o'r diwydiant olew a nwy, a gŵyr am y prosesau gwaith cyfnewidiol a ddefnyddir i godi olew a nwy, a phwysigrwydd technoleg danfor. Gŵyr hefyd am allu'r Alban i cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy, ac mae'n cefnogi'r sector hwn.

Mae Highlands and Islands Enterprise a Scottish Enterprise yn rhedeg rhwydwaith o Gynghorau Menter Lleol (CMLlau) y cysyllta'r ECITB â nhw ledled yr Alban i sicrhau fod data o ansawdd dda am farchnad lafur yr Alban a thueddiadau cyflogaeth mewn peirianneg adeiladu yn hysbys, yn ddealladwy, ac yn derbyn yr ymateb priodol.

ELWa

Mae Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa), yn cyfuno Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw'r rhain, sy'n gyfrifol am holl addysg a hyfforddiant ôl-16 Cymru.

Mae gan ELWa rwydwaith o swyddfeydd rhanbarthol a'i swyddogaeth gorfforaethol genedlaethol yw darparu dysgu gydol oes, yn cynnwys datblygu'r gweithlu. Mae gan ELWa dargedau addysg a hyfforddiant eang yng Nghymru, yn cynnwys y targed o gynyddu'r nifer o oedolion oed-gwaith sydd â CGC Lefel 2 o 5 o bob 10 i 7 o bob 10 erbyn 2004.

Yn y farchnad lafur Gymreig, caiff gwybodaeth ranbarthol a thueddiadau cyflogaeth yn y sector peirianneg adeiladu eu dadansoddi gan yr ECITB a'u rhannu gyda'r partneriaid priodol, ar lefel ranbarthol fel rheol. Bydd yr ECITB yn gweithio gyda Gyrfaoedd Cymru i hyrwyddo Prentisiaethau Modern Uwch (AMAs) a chyfleoedd dysgu gydol oes ar gyfer y genedl. Mae ffurflenni cais ar gyfer AMAs ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

proffiliau'r diwydiant

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ddatblygiad y gweithlu o fewn y diwydiant peirianneg adeiladu, gwnaethpwyd darn o waith ymchwil i ategu'r wybodaeth sy'n bod eisoes.

Gwnaeth yr ECITB arolwg o'r holl gwmnïau ar ei gofrestr, gyda 60% yn ymateb. Roedd hyn yn cynnwys bron y cwbl o'n contractwyr rheoli mawr, a chynrychiolaeth dda iawn o'r CBcau yn y sector. O ran ffigurau cyflogaeth, roedd yn cynnwys mwy nag 80% o'r gweithlu, sy'n golygu fod y data a gasglwyd yn arf ardderchog ar gyfer dadansoddi a dehongli.

Bydd yr adran hon, a'r saith sy'n dilyn, yn cyflwyno proffil o'r diwydiant peirianneg adeiladu ledled Prydain gyfan, ac yna'n rhoi dadansoddiad fesul rhanbarth.

Dewiswyd y rhanbarthau er mwyn rhoi'r gydnabyddiaeth ddyledus i'r Alban a Chymru, sydd â'u llywodraethau datganoledig eu hunain, ynghyd â Lloegr, sydd wedi ei his-rannu'n naw Awdurdod Datblygu Rhanbarthol.

Er rhwyddineb ac eglurdeb, ac er mwyn rhoi ystyr i'r ffigurau, mae pedwar o'r rhanbarthau a ddisgrifir yn yr adrannau a ganlyn wedi cael eu cyfuno. Mae'r ECITB yn cydnabod fod pob rhanbarth yn endid ar wahân gyda'i gwybodaeth, anghenion a gofynion neilltuol ei hun, ond maent oll yn gweithredu o fewn rhwydwaith ehangach.

Mae pob adran yn cynnwys data a gasglwyd yn yr arolwg diweddar a gwybodaeth oedd yn bod eisoes. Wedyn, bydd yn dehongli rhywfaint o'r data meintiol a gasglwyd yn yr arolwg a oedd yn trafod rhai materion manwl yn ymwneud â datblygu'r gweithlu.

prydain

	Safle	Prif Swyddfa	Y Ddau	Cyfanswm
Nifer o gwmnïau a ymatebodd	97	42	102	241
Cyflogaeth uchaf	17644	7242	24889	49775
Cyflogaeth isaf	10919	5460	18129	34508
Oed ar gyfartaledd	41.4	43.5	42.7	42.3
% o weithwragedd	2.10%	5.58%	3.18%	3.15%
% o weithwyr o grwpiau ethnig	1.59%	4.29%	1.61%	2.05%

Dengys y siart cylch ar dudalen 17 weithlu safle Prydain (tua 20,000) fesul math o weithgaredd. Gwaith arforol yw'r adran fwyaf yn yr amrediad o weithgareddau ledled Prydain, sef rhyw 28% o'r gwaith, a hynny ger arfordir yr Alban ym Môr y Gogledd yn bennaf. Purfeydd olew, gweithfeydd cemegol a gorsafoedd pŵer thermol sy'n ffurfio'r 30% nesaf o'r gweithlu, gyda rhyw 10% yr un. Mae'r 19 sector sy'n weddill yn cynnwys 40% olaf gweithgaredd Prydain, gyda niferoedd bach o bobl yn gweithio yn eu gwahanol sectorau.

Mae gwaith peirianneg adeiladu yn digwydd mewn sbectrwm llawer ehangach ar draws y DU. Un o amcanion yr ECITB yw darganfod mwy o safleoedd lle mae projectau peirianneg adeiladu graddfa-lai yn digwydd. Gobeithir y bydd canlyniad y gwaith hwn yn cymell ymchwil bellach i ddarganfod ac archwilio posibilrwydd dod â mwy o gwmnïau o dan adain yr ECITB, Yn ei dro, bydd hynny'n arwain at fuddiannau fel lleoli mwy o brentisiaid NASEC ar safleoedd a hyfforddi oedolion drwy NSDS, er mwyn lleihau bylchau a phrinderau sgiliau.

Mae'r tri is-benawd a ganlyn yn ddehongliadau o'r arolwg cwsmeriaid o bersbectif Prydeinig.

Pa fath o waith, yn eich barn chi, fydd yn y DPA yn y dyfodol, dros y 5 i 10 mlynedd nesaf?

Y duedd fwyaf cyffredin mewn mathau o waith DPA oedd y gogwydd tuag at fwy o waith atgyweirio, cynnal a chadw a dadgomisiynu. Nodwyd y duedd hon ers tro, a nid projectau adeiladu newydd yw mwyafrif y gwaith peirianneg adeiladu bellach, yn wahanol i ddegawd yn ôl.

Nododd nifer o gwmnïau hefyd eu bod yn credu fod llai o waith ar gael yn gyffredinol a'u bod yn credu nad yw'r math o waith yn debyg o newid yn arwyddocaol yn ystod y dyfodol. Nododd rhai contractwyr bwysigrwydd sicrhau gwaith mewn marchnadoedd tramor.

Beth, yn eich barn chi, fydd y problemau gyda'r cyflenwad/lefel sgiliau yn ystod y 5 mlynedd nesaf?

Y broblem a nodwyd fynychaf o ran y cyflenwad sgiliau yn y dyfodol oedd diffyg gweithwyr lefel crefft. Credai nifer o gwmnïau y byddai prinder crefftweithwyr/wragedd yn y 5 mlynedd nesaf.



Amrediad gweithgareddau cwmnïau Prydeinig

Nododd contractwyr fod proffil crefftweithwyr presennol yn heneiddio, a diffyg gweithwyr ifanc yn ymuno â'r diwydiant. Roedd rhai cwmnïau'n pryderu hefyd nad oedd digon o raddedigion yn cael eu denu.

Nodwyd technegwyr a pheirianwyr dylunio a rheoli projectau fel sgiliau lle gallai prinder godi yn ystod y pum mlynedd nesaf. Credai cwmnïau eraill y byddai prinder sgiliau ar bob lefel yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Sut y dylid gweithredu, yn eich barn chi, i ddatrys y problemau hyn?

Credai contractwyr ar y cyfan y dylid canolbwyntio yn y dyfodol ar hyfforddi prentisiaid a sicrhau eu bod yn aros yn y diwydiant. Credent hefyd y dylent dderbyn mwy o gefnogaeth ariannol gan y llywodraeth a'r ECITB.

Credai'r cwmnïau a ymatebodd y dylid hyrwyddo'r DPA er mwyn deny pobl i mewn i'r diwydiant. Credai contractwyr fod hyrwyddo fel hyn yn bwysig er mwyn denu graddedigion at beirianneg adeiladu yn hytrach na diwydiannau eraill.

Roedd materion eraill yn cynnwys symudedd y gweithlu a'r posibilrwydd o fod â gweithwyr peirianneg adeiladu aml-fedrus. Roedd cwmnïau hefyd am weld mwy o hyfforddiant ar raddfa leol a mwy o hyfforddiant mewnol.

Hyfforddiant a Datblygiad

Nifer o CGau a roddwyd yn 2002

	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Cyfanswm
Yr Alban	8	228	13	249
Cymru	4	2	0	6
Llund a De-Dd	0	4	17	21
D. Can a Dwyr	0	6	0	6
De-Orll a G Can	27	48	0	75
G-Orll Lloegr	16	35	0	51
G-Dd, S. Efrog a Humberside	30	83	0	113
Cyfanswm	85	406	30	521

Yr Alban

	Safle	Prif Swyddfa	Y Ddau	Cyfanswm
Nifer o gwmnïau a ymatebodd	5	13	34	52
Cyflogaeth uchaf	4298	105	10683	15086
Cyflogaeth isaf	2938	75	7436	10449
Oed ar gyfartaledd	39.0	43.3	41.7	41.0
% o weithwragedd	1.93%	0.00%	2.09%	1.92%
% o weithwyr o grwpiau ethnig	0.87%	0.00%	0.44%	0.54%

Hyd a lled gwaith cwmnïau'r Alban

Yr Alban yw un o'r rhanbarthau pwysicaf o safbwynt peirianneg adeiladu gyda mwy na 10,000 o bobl yn gweithio yn y sector. Mae ganddi sector arforol gref sy'n gyfrifol am bron hanner y gwaith peirianneg adeiladu yn y rhanbarth.

Mae rhan fwyaf o gwmnïau'r Alban yn gwneud gwaith peirianneg adeiladu yn y rhanbarth lleol (94%). Mae cwmnïau'r Alban yn gweithio mewn rhanbarthau eraill hefyd: Gog-ddwyr Lloegr/swydd Efrog a Humberside, Gog-orll Lloegr, a Gorll Canolbarth/De-orll Lloegr yw'r lleoliadau mwyaf cyffredin ar gyfer gwaith y tu allan i'r Alban.

Amrediad gweithgareddau cwmnïau'r Alban

Mae'r siart cylch ar dudalen 19 yn dangos y gweithlu safle fesul math o weithgaredd. Y prif fath o weithgaredd yn yr Alban yw gwaith arforol, lle mae mwy na 50% o'r gweithlu'n gweithio. Mae 9% yn gweithio mewn purfeydd olew a a 10% mewn gorsafoedd pŵer thermol, gyda safleoedd yn Longannet a Grangemouth. Mae'r 30% arall o'r gweithlu yn gweithio yn y meysydd gweithgaredd eraill, ddim mwy na 5% ym mhob un.

Problemau Datblygu'r Gweithlu a sut y Gweithredwyd – crynodeb o'r arolwg cwmnïau

Mae gweithlu'r Alban yn rhan hanfodol o'r diwydiant peirianneg adeiladu ac felly rhoddir cryn bwyslais ar y wlad.

Pan holwyd ynglŷn â phroblemau cyflenwad sgiliau yn y 5 mlynedd nesaf, mynegodd yr Alban bryder ynglŷn â phrinder ym mhob maes, ond yn bennaf o ran crefftweithwyr a thechnegwyr yn y gweithlu. Roedd llawer o'r contractwyr a holwyd eisoes yn defnyddio'r cynllun NASEC, ond yn cydnabod fod angen denu mwy fyth o bobl ifanc i ddatrys problem proffil oedran a phrinder sgiliau.

Codwyd y syniad o wneud y diwydiant yn fwy deniadol i bobl ifanc, ac awgrymwyd y dylai'r llywodraeth gynorthwyo i helpu'r holl fudd-ddeiliaid yn y diwydiant i ymweld ag ysgolion a hyrwyddo cymwysterau lefel crefft.

Cyfeiriwyd at broblem cynhyrchedd a'r farn oedd fod angen i'r diwydiant gynyddu ei gynhyrchedd a mynd yn fwy cystadleuol ar raddfa fyd-eang. Mae hyn yn cydfynd â'r adroddiad ar gynhyrchedd y cyfeiriwyd ato'n flaenorol.



Amrediad gweithgareddau cwmnïau'r Alban

Hyfforddiant Rhad-ac-am ddim/Dan nawdd ECITB

Mae contractwyr peirianneg adeiladu yn yr Alban wedi defnyddio'r cyrsiau rhad-ac-am-ddim.dan nawdd yr ECITB yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2002).

Hyfforddiant a noddwyd gan yr ECITB
Prentisiaid NASEC
Hyfforddiant NSDS
Hyfforddiant Sylfaen i Dechnegwyr
Hyfforddiant AET Peirianwyr Proffesiynol
Cyrsiau MSc rhan-amser mewn Rheolaeth Project, Prifysgol Aberdeen
Hyfforddiant rhad-ac-am-ddim
Egwyddorion Cynllunio a Rheoli Projectau - Gweithredol
'Processor' Tactegol
PEP Strategol
Caffael Cytundebau a Phartneriaeth
Rheolaeth Dadansoddi Risg
Adeiladu Gwell Busnes
Hyfforddiant a Datblygiad Rheolaeth Oruchwyliol (SMTD)
Hyfforddiant a Datblygiad Rheolaeth Oruchwyliol Arforol (OSMTD)
Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur
Negydu
Cwpan ACTIVE
Adeiladwyedd
Gweithdy N/SVQ

Cymru

	Safle	Prif Swyddfa	Y Ddau	Cyfanswm
Nifer o gwmnïau a ymatebodd	12	6	12	30
Cyflogaeth uchaf	1326	174	1607	3107
Cyflogaeth isaf	611	100	844	1555
Oed ar gyfartaledd	43.5	44.4	43.2	43.5
% o weithwragedd	0 00%	0.00%	0.04%	0.02%
% o weithwyr o grwpiau ethnig	1.17%	0.00%	1.25%	1.04%

Hyd a lled gwaith cwmnïau Cymru

Mae contractwyr peirianneg adeiladu Cymru'n cyflogi rhyw 3,000 people. Mae mwy na 30% o'r diwydiant yn y sector melinau dur.

Mae holl gwmnïau Cymru'n gwneud gwaith peirianneg yn eu rhanbarth cartref. Dywedodd mwy na hanner y cwmnïau eu bod yn gweithio yn rhanbarth Gorll. Canolbarth/ De-orll Lloegr hefyd. Dim ond 7% o gontractwyr a ddywedodd fod ganddynt waith peirianneg adeiladu tramor.

Mae'r siart cylch ar dudalen 21 yn dangos y gweithlu safle fesul math o weithgaredd. Mae mwy na 30% o'r gwaith yng Nghymru mewn melinau dur, ym Mhort Talbot, Llanwern a Chasnewydd yn bennaf. Gwaith adeiladu/codi, gweithfeydd trin dŵr, gorsafoedd pŵer thermol, gweithfeydd cemegol a phurfeydd olew yw'r rhan fwyaf o'r 70% sy'n weddill, gyda safleoedd ym Mhenfro, Bae Baglan a'r Barri.

Problemau Datblygu'r Gweithlu a sut y Gweithredwyd – crynodeb o'r arolwg cwmnïau

Pan holwyd ynglŷn â phroblemau cyflenwad sgiliau yn y 5 mlynedd nesaf, mynegodd Cymru bryder yn bennaf ynglŷn â hyfforddi a chadw'r prentisiaid NASEC. Fel yn Ne-orllewin a Gorllewin Canolbarth Lloegr, addefodd nifer o'r contractwyr nad oedd ganddynt broblem bylchau sgiliau am fod ganddynt lai o waith. Ond roedd yr addefiad fod arnynt angen rhagor o brentisiaid yn dangos, hyd yn oed heb fwlch sgiliau, fod prinder ar y gorwel wrth i broffil y diwydiant heneiddio.



Amrediad gweithgareddau cwmnïau Cymru

Hyfforddiant Rhad-ac-am ddim/Dan nawdd ECITB

Mae contractwyr peirianneg adeiladu yng Nghymru wedi defnyddio'r cyrsiau rhad-ac-am-ddim/dan nawdd yr ECITB canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2002).

Hyfforddiant a noddwyd gan yr ECITB

Prentisiaid NASEC

Hyfforddiant NSDS

Hyfforddiant rhad-ac-am-ddim

Adeiladu Gwell Busnes

Hyfforddiant a Datblygiad Rheolaeth Arolygol (SMTD)

Gogledd-orllewin Lloegr

	Safle	Prif Swyddfa	Y Ddau	Cyfanswm
Nifer o gwmnïau a ymatebodd	6	5	8	19
Cyflogaeth uchaf	641	2714	510	3865
Cyflogaeth isaf	423	1854	338	2615
Oed ar gyfartaledd	42.5	40.6	37.6	40.1
% o weithwragedd	1.67%	8.80%	3.50%	4.32%
% o weithwyr o grwpiau ethnig	2.00%	3.40%	0.00%	1.61%

Hyd a lled gwaith cwmnïau Gogledd-orllewin Lloegr

Mae Gogledd-orllewin Lloegr yn cyflogi rhyw 3,000 o bobl mewn peirianneg adeiladu. Prif sectorau'r diwydiant yn y rhanbarth yw gweithfeydd cemegol, petrocemegol a fferyllol.

Dywedodd holl gwmnïau Gogledd-orllewin Lloegr eu bod yn gwneud gwaith peirianneg adeiladu yn y rhanbarth lleol. Roedd De-ddwyrain Lloegr yn boblogaidd hefyd, gyda bron dri-chwarter o gwmnïau'r Gogledd-orllewin yn dweud eu bod wedi gweithio yn y De-ddwyrain.

Mae'r siart cylch ar dudalen 23 yn dangos y gweithlu safle fesul math o weithgaredd. Gweithfeydd cemegol yw'r canran uchaf, sef 21%, a dilynir hynny gan gyfrannau gweddol gyfartal mewn adeiladu/codi, gorsafoedd pŵer niwclear, gweithfeydd fferyllol a phetrocemegol, a phrojectau eraill, oll â rhyw 10% yr un. Mae'r 13 sector sy'n weddill yn ffurfio'r 30% arall, bob un â llai na 5% o'r gweithlu.

Problemau Datblygu'r Gweithlu a sut y Gweithredwyd – crynodeb o'r arolwg cwmnïau.

Pan holwyd ynglŷn â'r broblem cyflenwad sgiliau yn ystod y 5 mlynedd nesaf, poenai Gogledd-orllewin Lloegr yn bennaf am brinder sgiliau crefft yn y diwydiant. Roedd yn amlwg y sylweddolwyd fod angen ymdrin â'r problemau hyn, ac awgrymwyd y dylai pawb weithio gyda'i gilydd i recriwtio a dal gafael ar brentisiaid.

Awgrymodd contractwyr hefyd fod angen i'r ECITB fynd i mewn i'r ysgolion i hyrwyddo'r diwydiant peirianneg adeiladu gan nad yw pobl ifanc heddiw yn gweld gwaith 'ofyrols glas' yn llwybr gyrfa deniadol iawn. Rhaid oedd creu gwell delwedd i'r diwydiant peirianneg adeiladu, ac annog meithrin sgiliau crefft ac ymarferol yn hytrach na'u hosgoi.



Amrediad gweithgareddau cwmnïau Gog-orllewin Lloegr

Hyfforddiant Rhad-ac-am ddim/Dan nawdd ECITB

Mae contractwyr peirianneg adeiladu Gogledd-orllewin Lloegr wedi defnyddio'r cyrsiau rhad-ac-am-ddim/dan nawdd yr ECITB canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2002).

Hyfforddiant a noddwyd gan yr ECITB
Prentisiaid NASEC
Hyfforddiant NSDS
Cyrsiau MSc rhan-amser mewn Rheolaeth Project, Prifysgol Aberdeen
Hyfforddiant rhad-ac-am-ddim
Egwyddorion Cynllunio a Rheoli Projectau – Gweithredol
'Processor' Tactegol
PEP Strategol
Caffael Cytundebau a Phartneriaeth
Adeiladu Gwell Busnes
Hyfforddiant a Datblygiad Rheolaeth Oruchwyliol (SMTD)
Cwpan ACTIVE
Adeiladwyedd

G-Dd Lloegr/Swydd Efrog a Humberside

	Safle	Prif Swyddfa	Y Ddau	Cyfanswm
Nifer o gwmnïau a ymatebodd	35	14	27	76
Cyflogaeth uchaf	5576	1496	4415	11487
Cyflogaeth isaf	3486	1118	3365	7969
Oed ar gyfartaledd	42.0	43.9	44.0	43.1
% o weithwragedd	2.84%	5.07%	2.39%	3.09%
% o weithwyr o grwpiau ethnig	1.40%	7.36%	0.81%	2.30%

Hyd a lled gwaith cwmnïau G-Dd Lloegr/Swydd Efrog a Humberside

Mae rhanbarth G-Dd Lloegr/Swydd Efrog a Humberside yn ardal beirianneg adeiladu gref sy'n cyflogi o leiaf 8,000 o bobl. Dwy sector fwyaf diwydiant peirianneg adeiladu'r rhanbarth yw gweithfeydd cemegol a phurfeydd olew.

Mae 95% o gontractwyr G-Dd Lloegr yn gweithio yn y cylch. Mae mwy na hanner contractwyr G-Dd Lloegr yn gweithio yn Ne-Dd Lloegr ac roedd gan hanner union o'r contractwyr waith yn rhanbarth G-orllewin Lloegr .

Dengys y siart cylch ar dudalen 25 y gweithlu safle fesul math o weithgaredd. Cyflogir tua 30% o weithlu'r rhanbarth mewn gweithfeydd cemegol, Purfeydd olew, gweithfeydd dur ac ail-brosesu gwastraff niwclear sy'n dilyn, gyda safleoedd yn Immingham, Teesside a Scunthorpe.

Problemau Datblygu'r Gweithlu a sut y Gweithredwyd – crynodeb o'r arolwg cwmnïau

Pan holwyd ynglŷn â'r broblem cyflenwad sgiliau yn y 5 mlynedd nesaf, poenai G-Dd Lloegr, swydd Efrog a Humberside am amrywiaeth eang o bynciau, yn cynnwys technegwyr (ar fôr ac ar dir), peirianwyr a chrefftweithwyr. Awgrymwyd y dylid ymdrin â hyn drwy hyfforddi prentistiaid a gweithio i'w cadw, gan ddewis ansawdd, nid nifer.

Nodwyd hefyd yr angen am ailhyfforddi'r gweithlu presennol, ac am fwy o hyfforddiant noddedig, i gumyddu cymhwysedd. Cyfeiriwyd at gefnogaeth y llywodraeth mewn nifer o ymatebion gan na chred y contractwyr eu bod yn cael digon o gefnogaeth i symud y diwydiant yn ei flaen.



Amrediad gweithgareddau cwmnïau G-Dd Lloegr, Swydd Efrog a Humberside

Hyfforddiant Rhad-ac-am ddim/Dan nawdd ECITB

Mae contractwyr peirianneg adeiladu Gogledd-ddwyrain Lloegr, Swydd Efrog a Humberside wedi defnyddio'r cyrsiau rhad-ac-am-ddim.dan nawdd yr ECITB yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2002).

Hyfforddiant a noddwyd gan yr ECITB
Prentisiaid NASEC
Hyfforddiant NSDS
Hyfforddiant Sylfaen ar gyfer Technegwyr
Hyfforddiant AET Peirianwyr Proffesiynol
Cyrsiau MSc rhan-amser mewn Rheolaeth Project, Prifysgol Aberdeen
Hyfforddiant rhad-ac-am-ddim
Egwyddorion Cynllunio a Rheoli Projectau - Gweithredol
'Processor' Tactegol
PEP Strategol
Caffael Cytundebau a Phartneriaeth
Rheolaeth Dadansoddi Risg
Adeiladu Gwell Busnes
Hyfforddiant a Datblygiad Rheolaeth Oruchwyliol (SMTD)
Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur
Cymrodoriaeth Rheolaeth Project
Cwpan ACTIVE

Gorllewin Canolbarth/ De-orllewin Lloegr

	Safle	Prif Swyddfa	Y Ddau	Cyfanswm
Nifer o gwmnïau a ymatebodd	18	6	4	28
Cyflogaeth uchaf	4050	614	952	5616
Cyflogaeth isaf	2479	503	794	3776
Oed ar gyfartaledd	40.2	44.0	48.5	42.4
% o weithwragedd	2.76%	2.00%	3.10%	2.67%
% o weithwyr o grwpiau ethnig	3.50%	4.60%	0.00%	3.43%

Hyd a lled gwaith cwmnïau Gorllewin Canolbarth/De Orllewin Lloegr

Mae gan ranbarth Gorllewin Canolbarth/De-orllewin Lloegr ryw 5,000 o bobl yn gweithio yn y diwydiant peirianneg adeiladu. Gwaith mewn gorsafoedd pŵer thermol yw bron hanner y gwaith peirianneg adeiladu yn y rhanbarth.

Mae rhyw 90% o gontractwyr yn gweithio yn eu rhanbarth lleol. Mae bron dri-chwarter o'r cwmnïau'n gweithio yng Nghymru a Dwyrain Canolbarth/ Dwyrain Lloegr

Dengys y siart cylch ar dudalen 27 y gweithlu safle fesul math o weithgaredd. Projectau amrywiol yw tua hanner y gweithgaredd, gyda safleoedd yn Plymouth a Westbury. Gorsafoedd pŵer thermol sy'n cyflogi 18% o'r gweithlu gyda nifer lai mewn gweithfeydd trin dŵr, prosesu bwyd a gorsafoedd pŵer niwclear.

Problemau Datblygu'r Gweithlu a sut y Gweithredwyd – crynodeb o'r arolwg cwmnïau

Pan holwyd ynglŷn â'r broblem cyflenwad sgiliau yn y 5 mlynedd nesaf, soniodd Gorllewin Canolbarth/De-orllewin Lloegr yn bennaf am y prinder peirianwyr a graddedigion.

Dyma un o'r ychydig ranbarthau a nododd fod llai o waith ganddynt. Nid oedd y lleihad yn nifer y contractwyr sydd ar gael wedi achosi unrhyw broblemau gwirioneddol yn yr ardal hon.

Roedd contractwyr hefyd am i'r llywodraeth roi mwy o gefnogaeth i'w diwydiant a chefnogi mentrau yn ariannol er mwyn creu mwy o waith mewn peirianneg adeiladu, ac am i'r llywodraeth 'ymfalchïo' yn y diwydiant.



Amrediad gweithgareddau cwmnïau Gorllewin Canolbarth a De-orllewin Lloegr

Hyfforddiant Rhad-ac-am ddim/Dan nawdd ECITB

Mae contractwyr peirianneg adeiladu rhanbarth De-orllewin/Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi defnyddio'r cyrsiau rhad-ac-am-ddim/dan nawdd yr ECITB canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2002).

Hyfforddiant a noddwyd gan yr ECITB
Prentisiaid NASEC
Hyfforddiant NSDS
Cyrsiau MSc rhan-amser mewn Rheolaeth Project, Prifysgol Aberdeen
Hyfforddiant rhad-ac-am-ddim
Egwyddorion Cynllunio a Rheoli Projectau - Gweithredol
'Processor' Tactegol
Caffael Cytundebau a Phartneriaeth
Rheolaeth Dadansoddi Risg
Adeiladu Gwell Busnes
Hyfforddiant a Datblygiad Rheolaeth Oruchwyliol (SMTD)
Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur
Cwpan ACTIVE

Dwyrain Canolbarth/ Dwyrain Lloegr

	Safle	Prif Swyddfa	Y Ddau	Cyfanswm
Nifer o gwmnïau a ymatebodd	6	4	3	13
Cyflogaeth uchaf	1124	116	224	1464
Cyflogaeth isaf	724	87	110	921
Oed ar gyfartaledd	38.0	41.3	49.0	40.9
% o weithwragedd	1.83%	9.00%	6.67%	5.15%
% o weithwyr o grwpiau ethnig	0.17%	0.00%	13.33%	3.15%

Hyd a lled gwaith cwmnïau Dwyrain Canolbarth/Dwyrain Lloegr

Cafwyd fod gan ranbarth Dwyrain Canolbarth/ Dwyrain Lloegr uchafswm cyflogaeth o bron 1,500 ar gyfer peirianneg adeiladu. Mae rhywfaint o waith arforol ger arfordir Great Yarmouth hefyd, sy'n gwasanaethu gorsafoedd pŵer thermol.

Heb law am y rhanbarth cartref, y lleoliad gwaith mwyaf poblogaidd oedd De-ddwyrain Lloegr gyda mwy na hanner y contractwyr yn dweud fod ganddynt waith yn y rhanbarth hwnnw.

Dengys y siart cylch ar dudalen 29 y gweithlu safle fesul math o weithgaredd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith mewn gorsafoedd pŵer thermol a phurfeydd olew, gyda mwy na 50% o'r gweithlu ar safleoedd fel Cottam, Ratcliff, Coryton a Great Yarmouth. Gorsafoedd pŵer niwclear yw rhyw 9% o'r diwydiant, gyda safleoedd yn Sizewell. Mae gweddill y sectorau oll yn fychan iawn.

Problemau Datblygu'r Gweithlu a sut y Gweithredwyd – crynodeb o'r arolwg cwmnïau

Pan holwyd ynglŷn â'r broblem cyflenwad sgiliau yn ystod y 5 mlynedd nesaf, soniodd contractwyr o Ddwyrain a Dwyrain Canolbarth Lloegr am y ffaith na allent ddenu pobl ifanc i mewn i'r diwydiant i ddilwallu'r prinderau sgiliau presennol. Y rheswm am hynny oedd fod nifer gynyddol o bobl yn y diwydiant yn cyrraedd oed ymddeol ac yn ymadael â'r diwydiant, sy'n rhoi pwysau ar allu cwmnïau i recriwtio'r nifer ddigonol o weithwyr newydd sydd eu hangen.

Rhai o'r awgrymiadau ar gyfer ymdrin â'r sefyllfa oedd mynd i mewn i'r ysgolion a hyrwyddo swyddi o fewn y diwydiant peirianneg adeiladu fel llwybrau gyrfa ymarferol. Soniwyd fod angen gwneud y diwydiant yn fwy atyniadol, gan danlinellu'r manteision ar gyfer pobl ifanc.



Amrediad gweithgareddau cwmnïau Dwyrain Canolbarth/ Dwyrain Lloegr

Hyfforddiant Rhad-ac-am ddim/Dan nawdd ECITB

Mae contractwyr peirianneg adeiladu Dwyrain Canolbarth/Dwyrain Lloegr wedi defnyddio'r cyrsiau rhad-ac-am-ddim/dan nawdd yr ECITB canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2002).

Hyfforddiant a noddwyd gan yr ECITB
Prentisiaid NASEC
Hyfforddiant NSDS
Hyfforddiant Sylfaen ar gyfer Technegwyr
Cyrsiau MSc rhan-amser mewn Rheolaeth Project, Prifysgol Aberdeen
Hyfforddiant rhad-ac-am-ddim
Egwyddorion Cynllunio a Rheoli Projectau - Gweithredol
'Processor' Tactegol
Adeiladu Gwell Busnes
Hyfforddiant a Datblygiad Rheolaeth Oruchwyliol (SMTD)
Cymrodoriaeth Rheolaeth Project

Llundain/De Ddwyrain Lloegr

	Safle	Prif Swyddfa	Y Ddau	Cyfanswm
Nifer o gwmnïau a ymatebodd	5	4	14	23
Cyflogaeth uchaf	629	2023	6498	9150
Cyflogaeth isaf	258	1723	5242	7223
Oed ar gyfartaledd	46.0	46.5	41.9	43.6
% o weithwragedd	1.00%	15.50%	9.14%	8.48%
% o weithwyr o grwpiau ethnig	1.00%	6.67%	5.08%	4.47%

Hyd a lled gwaith cwmnïau Llundain/De-ddwyrain Lloegr

Mae gan Dde-ddwyrain Lloegr fwy na 7,000 o bobl yn gweithio mewn peirianneg adeiladu. Mae sectorau mawr y diwydiant yn cynnwys gwaith puro olew a fferyllol.

Mae'r rhan fwyaf o gontractwyr De-ddwyrain Lloegr yn gwneud gwaith peirianneg adeiladu yn y rhanbarth. Mae mwy na hanner y contractwyr yn y rhanbarth yn gweithio yng Ngorll Canolbarth/De-orll Lloegr, G-Dd Lloegr a Chymru hefyd.

Dengys y siart cylch ar dudalen 31 y gweithlu safle fesul math o weithgaredd. Purfeydd olew yw'r gyfran fwyaf, rhyw 20%, gyda safleoedd fel Fawley. Projectau eraill, gweithfeydd fferyllol a gweithfeydd trin dŵr yw'r nesaf o ran maint, yn cyflogi bron 30% gyda safleoedd mewn mannau fel Canary Wharf, Sandwich a Dungeness.

Problemau Datblygu'r Gweithlu a sut y Gweithredwyd – crynodeb o'r arolwg cwmnïau

Pan holwyd ynglŷn â phroblem cyflenwad sgiliau yn y 5 mlynedd nesaf, nododd contractwyr Llundain a De-dd Lloegr brinder technegwyr, peirianwyr a graddedigion peirianneg. Y rheswm pennaf dros eu methiant i gyflogi'r fath bobl oedd diffyg pobl ifanc yn dod i mewn i'r diwydiant.

Roedd awgrymiadau ar ymdrin â'r problemau hyn yn cynnwys rhoi mwy o amlygrwydd i'r diwydiant peirianneg adeiladu a mynychu mwy o ddigwyddiadau mewn prifysgolion ac ysgolion i argymell y diwydiant i bobl ifanc sydd ar fin dewis llwybr gyrfa.



Amrediad gweithgareddau cwmnïau Llundain a De-ddwyrain Lloegr

Hyfforddiant Rhad-ac-am ddim/Dan nawdd ECITB

Mae contractwyr peirianneg adeiladu Llundain a De-ddwyrain Lloegr wedi defnyddio'r cyrsiau rhad-ac-am-ddim/an nawdd yr ECITB a ganlyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2002).

Hyfforddiant a noddwyd gan yr ECITB
Prentisiaid NASEC
Hyfforddiant NSDS
Hyfforddiant Sylfaen ar gyfer Technegwyr
Cyrsiau MSc rhan-amser mewn Rheolaeth Project, Prifysgol Aberdeen
Hyfforddiant rhad-ac-am-ddim
Egwyddorion Cynllunio a Rheoli Projectau - Gweithredol
'Processor' Tactegol
PEP Strategol
Caffael Cytundebau a Phartneriaeth
Rheolaeth Dadansoddi Risg
Peirianneg Gwerth
Hyfforddiant a Datblygiad Rheolaeth Oruchwyliol (SMTD)
Deddfwriaeth Diogelwch a Chyflogaeth
Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur
Cyllid a Busnes
Cwpan ACTIVE
Adeiladwyedd
Cymrodoriaeth Rheolaeth Project

mentrau allweddol

Er mwyn ymdrin â phroblemau datblygu'r gweithlu ledled y DU, yn cynnwys rhai materion a godwyd mewn adrannau blaenorol, mae'r ECITB wedi mabwysiadu sawl cynllun i ymdrin â'r broblem.

O ganlyniad i arolwg strategaeth diweddar, eir ati i greu nifer o dimau bach i weithio mewn gwahanol rannau o'r DU. Nod y grwpiau hyn fydd gweithio'n fwy effeithiol yn eu rhanbarthau drwy gynyddu'r ddarpariaeth hyfforddi leol a'r galw amdano, gan elwa ar ffrydiau cyllid llywodraeth leol a'r UE.

Ynni Uchelgais

Ar y cyd â Job Centre Plus, lansiwyd menter lwyddiannus o'r enw Ynni Uchelgais sy'n hwyluso recriwtio pobl a hyfforddwyd ar ein Cynllun Datblygu Sgiliau Cenedlaethol (NSDS) drwy gyfrwng canolfannau'r di-waith. Mae cynllun peilot ar y gweill yng Nghymru a dylai'r cynllun fod yn gwbl weithredol erbyn diwedd 2003.

Cynllun NASEC

Mae cynllun recriwtio NASEC wedi newid rywfaint yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan ein bod wedi gofyn i'n cwmnïau restru eu hanghenion am brentisiaid NASEC fesul crefft. Drwy wneud hyn, gallwn sicrhau fod ein hymgyrch recriwtio yn cael ei harwain gan alw go iawn, nid amcangyfrifon.

Mae'r broses NASEC yn cael ei monitro a'i harchwilio beunydd. Mae'r ECITB yn hyderus y byddwn yn pasio'n harchwiliad Arolygiaeth Dysg Oedolion nesaf gyda sgôr uwch na'r cyffredin, a byddwn yn monitro'r rhai sydd dan hyfforddiant ar safleoedd ac oddi arnynt yn gyson bob pythefnos.

Un o'n hamcanion yn sgîl yr arolwg strategaeth yw cynyddu'r nifer o brentisiaid o 50% o leiaf, ac i sicrhau mwy byth o dwf yn NSDS.

Yn ychwanegol at hynny, gwneir gwaith ymchwil i sicrhau ein bod y deall y cynllun yn ei grynswth yn well. Mae project eisoes ar y gweill i wneud arolwg o rai sydd, ac a fu, dan hyfforddiant; dylai'r canlyniadau fod ar gael erbyn diwedd 2003. Gwnaed ychwil ar gyfraddau cwblhau, ac er bod gennym un o'r cyfraddau cwblhau uchaf yn y byd, tua 70%, mae'r ECITB yn parhau i ymdrechu i gynyddu'r ganran honno.

Rhaglenni gyda Chefnogaeth y GGE

Mae dwy raglen yn rhedeg yr yr Alban ar hyn o bryd gyda chefnogaeth y GGE a Llywodraeth yr Alban drwy Bartneriaeth Amcan 3 yr Alban.

Y gyntaf yw Sgiliau Peirianneg Adeiladu ar gyfer pobl ifanc. Ar hyn o bryd, mae 34 prentis NASEC yn cael eu hyfforddi yn ein canolfannau hyfforddi yn Paisley a Grangemouth gyda chefnogaeth ariannol (45%) gan Lywodraeth yr Alban a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (gyda'r ECITB yn cyfrannu 55%). Bydd y prentisiaid yn cwblhau eu hyfforddiant yn y ganolfan ym mis Awst 2003 ac yn symud ymlaen i dreulio cyfnod 2-flynedd yn gweithio ar safle lle gallant arddangosodd eu cymhwysedd a sicrhau eu CGA lefel 3.

Yr ail yw e-ddysgu ar gyfer goruchwylwyr arforol. Mae'r project hwn yn mynd i'r afael â phroblem dysgu a datblygu yn y sector arforol. Gan fod Rhaglen Hyfforddiant a Datblygiad Rheolaeth Oruchwyliol Arforol (OSMTD) yr ECITB ar gael ar CD-Rom ac ar-lein, gall goruchwylwyr yn y rhaglen barhau i ddatblygu tra'n gweithio ar y môr neu pan fyddant ar wyliau ar y lan. Mae'r dull dysgu newydd hwn yn golygu y gellir mentora ar-lein, creu stafelleodd sgwrsio i'r dysgwyr, a'u hasesu ar-lein. Mae'r rhaglen wedi ei dilysu gan y Sefydliad Diogelwch a Iechyd Galwedigaethol (IOSH) a'r sefydliad Dysgu a Rheolaeth (ILM). Mae'r rhaglen hon hefyd yn cael ei chyllido gan Lywodraeth yr Alban a'r GGE (45%), Partneriaeth Amcan 3 yr Alban, a'r ECITB (55%).

JIVE

Project a gyllidir gan Fenter Gymuned EQUAL yr UE yw JIVE. Mae'n darparu arian ar gyfer projectau arloesol sy'n cefnogi grwpiau sydd dan anfantais yn y farchnad lafur. Mae'r ECITB yn un o fwy na deg o bartneriaid, yn cynnwys y Comisiwn Cyfle Cyfartal. Nod JIVE yw dileu gwahanu ar sail rhyw yn y sectorau peirianneg, adeiladu a thechnoleg drwy ddatblygu ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag dilyn gyrfaoedd yn y sectorau hyn:

- Rhaglen NASEC – drwy ei gefnogaeth i dderbyniad 2002, 2003 a 2004 o fenwyod i'r rhaglen brentisiaeth, yr ECITB yw cyd-drefnydd arloesol y maes arbrofi "sector cyflogaeth" cyntaf – y sector peirianneg adeiladu.

- Mentora gan fenywod sydd wedi sefydlu gyrfa mewn sectorau cysylltiedig ar gyfer merched sy'n dilyn cyrsiau hyfforddi NASEC, yn arwain at sefydlu rhwydwaith "Menywod mewn Peirianneg Adeiladu"

- Datblygu cyfarpar archwilio cydraddoldeb a ddefnyddir gyda chyflogwyr yn y DPA a fydd yn dangos sut i wneud yr amgylchedd gwaith yn fwy cefnogol i fenywod (rhedir peilot gyda chyflogwyr sy'n cynnig lleoliadau gwaith i ferched ar y rhaglen NASEC).

Sicrhau Cymhwysedd mewn Peirianneg Adeiladu (ACE)

Mae'r ECITB, fel rhan o Grŵp Llywio'r Diwydiant sy'n cynnwys y Cyd-gyngor Cenedlaethol, undebau llafur, cleientiaid a chontractwyr, wedi bod yn arbrofi mewn sawl lleoliad yn y DU i baratoi ar gyfer lansio cymwysterau newydd yn 2003. Nod yr arbrofion hyn yw barnu dilysrwydd ac effeithiolrwydd deunydd asesu a phrosesau diwygiedig ar gyfer cymwysterau N/SVQ lefel 3 ar gyfer crefftweithwyr medrus sy'n gwneud gwaith ar safle fel weldio, adeiladu, ffitio mecanyddol, platio a gosod peipennau.

Y weledigaeth yw sicrhau, o fewn pum mlynedd, y bydd gan weithlu safle'r diwydiant gymhwysedd dilysedig ym mhob maes, wedi ei fesur yn erbyn safonau cenedlaethol drwy system sicrhau cymhwysedd genedlaethol (ACE).

Mantais arall y cynllun hwn yw y bydd yn helpu gyda chynhyrchedd. Drwy sicrhau fod y gweithlu cyfan yn gymwys yn eu maes, bydd hyn yn sicrhau fod gwaith yn cael ei gwblhau i safon uchel, a thrwy hynny, yn cynyddu cynhyrchedd.

Cynllun Goruchwylydd Cydnabyddedig y Diwydiant Peirianneg Adeiladu (ECIAS)

Rhaglen gymhwysedd goruchwylio llwybr-cyflym a lansiwyd ym mis Mehefin 2003 yw'r cynllun hwn, sef llwybr cyflym ar gyfer asesu gweithwyr ar sail y wybodaeth a'r sgiliau goruchwylio safle sydd ganddynt eisoes. Cafodd y rhaglen ei datblygu drwy ymgynghori â'r ECIA, a thrwyddi gellir asesu goruchwylwyr yn gyflym ac yn effeithiol yn erbyn disgrifiad swydd y diwydiant a'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae dwy ran iddi: rhan un yw'r cerdyn arian, sy'n asesu gwybodaeth goruchwylwyr am y swydd yn erbyn safonau cenedlaethol, a rhan dau, y cerdyn aur, sy'n asesu cymhwysedd goruchwylwyr yn y swydd.

Bydd ymgeisyddion a aseswyd yn unol â'r rhaglen hon ac y barnwyd fod ganddynt y wybodaeth ofynnol ynglŷn â swydd goruchwylwyr yn ennill cerdyn arian. Os bydd yr ymgeisydd yn ennill Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol, yna gall ennill cerdyn aur cymhwysedd hefyd.

Mae tri llwybr yn arwain at ennill cerdyn arian:

1. Cwrs gloywi deuddydd, gydag asesiad o wybodaeth o'r swydd i ddilyn
2. Cwrs gloywi 5-diwrnod, gydag asesiad o wybodaeth o'r swydd i ddilyn
3. Mynd yn syth at asesiad o wybodaeth o'r swydd

Yn ychwanegol at hyn, bydd goruchwylwyr sydd eisoes wedi ennill CGC Lefel 3 mewn rheolaeth yn gymwys i dderbyn cerdyn aur ar unwaith, ond cyflwyno eu tystysgrif CGC.

Cynhyrchedd

Mae'r ECITB wedi comisiynu astudiaeth o ganfyddiadau/agweddau i ddarganfod, yn y lle cyntaf, a oedd canfyddiad eang fod cynhyrchedd yn gostwng ac, os felly, beth yw'r rhesymau. Os bydd ffyrdd amlwg ac ymarferol o weithredu i unioni hyn ar gael, caiff yr astudiaeth ei hymestyn.

Datblygu Clystyrau Rhanbarthol a rhai dan Arweiniad Cyflogwyr Lleol

Bydd yr ECITB yn sefydlu gweithgareddau rhanbarthol yn y chwe mis nesaf. Mae pob rhanbarth yn cydfodoli'n esmwyth â'r ffiniau ADRh a CDS/ CMLl presennol, yn ogystal â rhaniadau hanesyddol y sector. Mae hon yn ffactor bwysig o safbwynt manteisio ar y ffrydiau cyllid priodol i gefnogi ein hyfforddiant.

Mae'r galw'n dangos fod yna ardaloedd sydd ag angen lefelau uwch o gefnogaeth ar hyn o bryd. Nodir y rhain ar ffurf 19 clwstwr lleol, er enghraifft, Aberdeen, Tees Valley, Penfro a Thames Gateway.

Mae'r clystyrau lleol hyn yn cynnwys sefydliadau cydnaws a chyrff a all weithio ynghyd i ddefnyddio nerth cymesur â'u maint i ddylanwadu ar gyrff llywodraeth leol, addysg, cyllido a chefnogaeth fusnes yn eu rhanbarth. Bydd yr ECITB yn helpu i sefydlu grwpiau i wella dysgu a datblygiad lleol, addysg, cyllid strwythurol a'r modd y darperir cynnyrch a gwasanaethau'r ECITB.

crynodeb

Mae'r ddogfen hon wedi disgrifio'r gweithlu peirianneg adeiladu yn ei grynswth, a fesul rhanbarth. Mae wedi dangos fod nifer o ffactorau pwysig o fewn y diwydiant y mae'n rhaid eu hystyried wrth ymdrin â hyfforddi a datblygu'r gweithlu. Mae rhai o'r rhaglenni uchod yn mynd i'r afael â'r materion hyn, ond mae'n amlwg fod angen gwaith pellach.

Dangosodd yr arolwg cwmnïau, a gwblhawyd gan gontractwyr y diwydiant, fod pryder eang ynglŷn â phrinderau a bylchau mewn sgiliau, yn enwedig prinder crefftweithwyr/wragedd medrus. Y farn gyffredinol, yn enwedig yn y rhanbarhau hynny lle mae llawer o waith, oedd bod angen cyfranogaeth pawb i fynd i'r afael â'r prinderau hyn. Roedd sylwadau fel "cael y llywodraeth i chwarae rhan", "cynyddu cefnogaeth ariannol" a "rhoi mwy o amlygrwydd i'r Diwydiant Peirianneg Adeiladu" yn codi'n aml, ac mae hyn yn dangos pwysigrwydd cynyddu cyfranogaeth o bob rhan o'r sector.

Codwyd y ffaith fod proffil y gweithlu'n heneiddio hefyd yn yr arolwg cwmnïau. Credid mai dyma un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at brinder sgiliau gan y bydd y cynnydd mewn cyfraddau ymddeol ymhlith gweithlu sy'n heneiddio yn dechrau effeithio ar y gronfa lafur, yn enwedig ar safle. Roedd ffyrdd o ddatrys y broblem hon yn cynnwys denu pobl iau i mewn i'r diwydiant drwy ymweld ag ysgolion/colegau i gyflwyno'r diwydiant mewn modd fydd yn gwneud i beirianneg adeiladu gael ei gweld fel gyrfa fwy cyffrous a mwy diddorol.

Roedd hyd a lled y gweithlu yn ddarn pwysig o wybodaeth a gasglwyd yn yr arolwg. Tra bod mwyafrif helaeth o'r cwmnïau yn gweithio'n lleol, roedd rhai o Ogledd-ddwyrain a Gogledd-orllewin Lloegr yn teithio cyn belled â'r De-ddwyrain a Llundain i weithio. Mae rhai cwmnïau contractwyr rheolaeth hyd yn oed yn teithio i wledydd tramor i weithio. Mae'r wybodaeth ar symudedd y gweithlu yn gyfyngedig, a byddai'n werth gwneud ymchwil bellach wrth gynllunio ar gyfer hyfforddiant sgiliau.

Y rheswm dros holi ynglŷn ag uchafswm ac isafswm cyflogaeth yn y diwydiant oedd er mwyn deall llanw a thrai cyflogaeth o fewn cwmni mewn blwyddyn. Dangosai'r canlyniadau yn eu crynswth amrywiad o 22% yn nifer y gweithlu ym Mhrydain; ymhlith cwmnïau ar-safle yn unig, roedd 38% o amrywiad. Mae hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r gyfran helaeth o weithwyr ansefydlog sydd yn gweithio mewn peirianneg adeiladu, nas cyflogir yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Wrth ystyried hyfforddiant a chynllunio gweithlu, mae angen dod â'r bobl yma yn ôl i mewn i'r diwydiant o waith arall y tu allan i beirianneg adeiladu.

Mae'r holl ffeithiau uchod yn crynhoi rhai o'r pwyntiau pwysicaf wrth ymdrin â'r gweithlu anghonfensiynol a grynhoir o dan label peirianneg adeiladu. Mae angen mynd i'r afael â'r rhain, a llawer pwnc arall, o dan bennawd ehangach datblygu'r gweithlu. Mae'r adran a ganlyn yn rhestru Blaenoriaethau Gweithredu a Datganiadau Canlyniadau ar gyfer y diwydiant. Bydd y rhain, yn eu tro, yn ceisio sicrhau cyfranogaeth yr holl brif fudd-ddeiliaid mewn peirianneg adeiladu, er mwyn llwyddo a newid.

blaenoriaethau gweithredu

Y prif flaenoriaethau gweithredu ar gyfer datblygu'r gweithlu yn y dyfodol yw:

Darparu Tystiolaeth o Gymhwysedd Unigolion ar gyfer Cyflogwyr

- Gwerthu'r cysyniad i gyflogwyr
- Darparu hyfforddiant NASEC sy'n bodloni gofynion cymhwysedd
- Datblygu safonau a chyrsiau ac ati
- Darparu deunyddiau marchnata a chyfathrebu

Ymdrin â Gofynion Cyfnewidiol Cwsmeriaid

- Sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i rheoli'n effeithiol i ateb y gofynion a nodwyd
- Nodi newidiadau sydd eu hangen ar sail y rhaglen NASEC
- Darparu gwasanaeth i ateb anghenion y diwydiant
- Dadansoddi gwybodaeth er mwyn darganfod sut mae gofynion cwsmeriaid yn newid
- Dangos ein parodrwydd i ymateb i ofynion cyfnewidiol
- Sicrhau cyllid i gefnogi datblygiadau newydd

Ymdrin â Phrinderau a Bylchau mewn Sgiliau o fewn y Diwydiant

- Deall beth sy'n ysgogi cwsmeriaid a'u cefnogi mewn datblygu sgiliau
- Gwella ansawdd a chynyddu nifer y bobl a hyfforddir (NASEC ac NSDS)
- Mesur a dilysu cymhwysedd
- Awgrymu a datblygu cynnyrch a gwasanaethau fel y bo'n briodol
- Darparu deunyddiau cyrsiau a hyrwyddo

Hyrwyddo Peirianneg Adeiladu a'r ECITB

- Sefydlu dulliau cynhwysfawr ac effeithiol o gysylltu'n bersonol â chwsmeriaid
- Sicrhau fod cynlluniau hyfforddi NASEC ac NSDS yn cael eu cydnabod a'u derbyn fel cyrsiau sy'n cynnig hyfforddiant sgiliau o'r ansawdd uchaf
- Hyrwyddo gweithgareddau a gwasanaethau Corff Dyfarnu'r ECITB
- Cynnig arfer gorau o ran datblygu a rhedeg cyrsiau ac ati
- Cynnig cyfleoedd newydd i greu partneriaethau a sicrhau cyllid i gefnogi'r diwydiant mewn ymateb i alw
- Sicrhau cefnogaeth ac ymrwymiad budd-ddeiliaid i'r cynlluniau gweithredu

Targedau Datganiad a Chanlyniadau

Darparu Tystiolaeth o Gymhwysedd Unigolion ar gyfer Cyflogwyr

- Mae'r gwaith hwn ynghlwm wrth fenter ACE a fydd yn sicrhau, o fewn pum mlynedd, fod gan y gweithlu safle gymhwysedd a ddilyswyd ym mhob maes, wedi ei fesur yn erbyn safonau cenedlaethol drwy system sicrhau cymhwysedd genedlaethol
- Datblygu cymwysterau a deunydd asesu newydd
- Cymeradwyo grantiau ar gyfer hyfforddi aseswyr a gwirwyr
- Datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Mesur: Cynyddu nifer yr ymgeisyddion sy'n cofrestru ar gyfer hyfforddiant cymhwysedd. Cynyddu nifer y rhai dan hyfforddiant sy'n ennill Cymwysterau Galwedigaethol

Partneriaid: ECITB, cyflogwyr y sector, cyflenwyr hyfforddiant, CDSau a chyrff rheoliadol

Ymdrin â Gofynion Cyfnewidiol Cwsmeriaid

- Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â budd-ddeiliaid allweddol
- Sefydlu systemau casglu gwybodaeth ac adrodd yn ôl effeithiol
- Cydosod ymateb rhai dan hyfforddiant
- Diweddaru cynnyrch a'i wneud yn fwy hyblyg fel y daw gofynion i'r amlwg
- Gwneud arolwg boddhad cwsmeriaid
- Dod o hyd i strategaethau i sicrhau incwm i gyflogwyr ar gyfer NSDS

Mesur: Sicrhau ymateb cyson a phositif gan fudd-ddeiliaid allweddol yn y diwydiant

Partneriaid: ECITB, cyrff sgiliau eraill yn y sector, cyflenwyr hyfforddiant

Ymdrin â Phrinderau a Bylchau mewn Sgiliau o fewn y Diwydiant

- Hyrwyddo cyrsiau, yn cynnwys NSDS
- Darparu mwy o hyfforddiant an-NASEC
- Datblygu cymwysterau a deunydd asesu newydd
- Gwerthuso cynnyrch
- Dadansoddi pob gwybodaeth berthnasol ac adrodd ar hynny
- Cynyddu derbyniad blynyddol ar gyfer y cynllun NASEC o 50%
- Mynd i'r afael â phroffil oedran y gweithlu ar bob lefel

Mesur: Dod â nifer gynyddol o ddysgwyr o oedolion a dysgwyr NASEC i mewn i'r diwydiant

Partneriaid: ECITB, cyflogwyr y sector, cyrff sgiliau eraill yn y sector, cyflenwyr hyfforddiant, CDSau, Addysg bellach, Addysg Uwch, ysgolion, gwasanaethau gyrfaoedd a chleientiaid

Hyrwyddo Peirianneg Adeiladu a'r ECITB

- Ymweliadau ag ysgolion
- Cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cydgysylltu a PR ar gyfer peirianneg adeiladu
- Hyrwyddo gyrfaoedd a chefnogaeth
- Cyfathrebu'n effeithiol ynglŷn â llwyddiant yr ECITB ym maes datblygiad
- Parhau i symud ymlaen yn dechnolegol drwy ddatblygu a hyrwyddo dysgu ar-lein o fewn y diwydiant
- Sicrhau fod gwefan yr ECITB yn cynnig y cyfleuster chwilio mwyaf cynhwysfawr a syml ar gyfer rhai sy'n ceisio gwybodaeth ynglŷn â'r DPA a gyrfaoedd a chyrsiau hyfforddi o fewn y diwydiant

Mesur: Cynyddu ymateb positif gan fudd-ddeiliaid allweddol yn y diwydiant

Partneriaid: ECITB, cyflogwyr y sector, cyrff sgiliau eraill yn y sector, cyflenwyr hyfforddiant, ysgolion, gwasanaethau gyrfaoedd a Connexions